

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Is Sector Dofednod

Ym Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad o Ddiwydiant Bwyd a Diod Cymru yn ôl is sector. Gwelodd y gwerthusiad fod lefel uchel o brosesu dofednod yng Nghymru, oedd heb ei ddynodi yn yr ystadegau swyddogol. Penderfynwyd fod angen ymchwil pellach i'r is sector hwn.

Mae'r adroddiad byr hwn yn cynnig rhagor o fanylion am weithgareddau'r is sector, o gynhyrchu craidd i adwerthu. Yn benodol, mae'r adroddiad yn rhoi ystadegau cynhyrchu o'r Cyfrifiad Amaethyddol, ystadegau cyflogaeth a busnes manwl gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA), tueddiadau'r defnyddwyr trwy adolygu data Kantar, a gweithgaredd busnes arall trwy amrywiaeth o astudiaethau achos. Mae amrywiaeth o waith ymgynghori gyda'r diwydiant yn cynnig cipolwg a chyd-destun pellach.




Cynhyrchu Craidd: Is Sector Dofednod

Crynodeb o Gynhyrchu Craidd y DG

- Mae niferoedd dofednod y DG wedi gweld cynnydd o 4.4% i bron i 170 miliwn o adar yn 2014. Mae'r cynnydd yn dod yn bennaf o dwf o 5.5% mewn ieir bwrdd.
- Mae ieir yn cyfrif am 91% o gynhyrchiant dofednod y DG yn ôl nifer y radar, gyda thwrci'n cyfrif am tua 4% a rhywogaethau eraill, megis hwyaid a gwyddau ac ati, yw'r 5% arall (Defra 2014).
- Yn y UK, Gogledd Iwerddon sydd â nifer uchaf y dofednod y pen o'r boblogaeth, a Lloegr sydd â'r isaf, gyda Chymru yn y canol – gweler Ffigur 1.
- Mae gan Gymru tua 6.6% o ieir y DG.

Stoc dofednod i'i gymharu â'r boblogaeth ledled y DG



Ffynhonnell: DEFRA

Cynhyrchu Craidd Cymru

- Mae dwy brif ffynhonnell ddata ar gyfer cynhyrchu craidd – y Gofrestr Ceidwaid Dofednod (sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru at ddibenion rheoli afiechydon¹) ac Arolwg Amaethyddol Cymru 2014 (WAS). Mae'r ddwy ffynhonnell yn rhoi ffigurau ychydig yn wahanol ar gyfer y sector.
- Mae ychydig dros 7,300 o geidwaid dofednod cofrestredig (pob rhywogaeth) yng Nghymru, gyda'r mwyafrif helaeth yn eu cadw er diddordeb.

Ieir

¹ Adolygwyd y Gofrestr gan dynnu unrhyw ddyblygiadau ohoni ar gyfer y dadansddiad. Nid yw rhai safleoedd yn rhestru nifer yr adar.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



- Mae 132-138 yn cadw ieir i gynhyrchu cig (WAS 132, Cofrestr 138).
- Mae 46 o geidwaid (WAS) ar 72 safle (Cofrestr) ar raddfa fasnachol (dros 10,000 o adar) yn cyfrif am 6.25m-8.35m o adar a 99.9% o'r cyfanswm (WAS 6.25m, Cofrestr 8.35m).
- Mae 30 cynhyrchwr mawr iawn (dros 100,000 o adar) (WAS) ar 41 safle (Cofrestr).
- Serch hynny, dim ond 17 perchennog sydd ar y Gofrestr, gan amlinellu'r faith fod gan rai perchennogion nifer o safleoedd.
- Mae'r ddau gwmni mwyaf yn cyfrif am hanner yr heidiau Cymreig, sef 3.89m o adar ar 33 safle. Mae'r cwmnïau hyn hefyd yn prosesu, ac felly wedi integreiddio'n fertigol.
- Mae tuedd niferoedd yr ieir yn y cyfrifiad amaethyddol blynyddol yng Nghymru i'w gweld yn y tabl isod.

Niferoedd Brwyliaid Cymru Mehefin 1998-2014 (miliynau)

	1998	2000	2002	2004	2006	2008	2010	2012	2014
Ieir Bwrdd (brwyliaid)	7.09	8.24	4.34	6.48	4.03	5.43	5.85	5.75	6.26

Ffynhonnell: Cyfrifiad Amaethyddiaeth Mehefin.

Tyrcwn

- Mae 131 cynhyrchwr tyrcwn yng Nghymru, sydd â 58,600 o adar. Mae gan 21 dros 100 o adar. Mae gan 10 dros 1,000 o adar gan gyfrif am 54,600 neu 93% o dyrcwn Cymru. (Cofrestr)

Stoc Fridio

- Mae 32 bridwr stoc dofednod gwerth uchel ar gyfer cynhyrchu brwyliaid (Cofrestr).
- Mae 28 bridwr twrci ond dim ond tri ar raddfa fasnachol (Cofrestr).

Dulliau Cynhyrchu Craidd

- Y prif ddull cynhyrchu yn y DG a Chymru yw system gwellt dwfn. Tai dofednod mawr gyda hyd at 32,000 o adar, gan reoli gwres, golau ac awyru, a haenen o wellt neu naddion coed i'r adar fyw arnynt yn rhydd.
- Mae ieir yn cael eu magu i 2 kg sy'n cymryd 6 wythnos neu fwy i adar dan do. Gan ganiatáu 8 diwrnod i lanhau, mae hyn yn golygu y gall y ffermwyr gorau fagu ieir 7 gwaith y flwyddyn. Mae tyrcwn yn cael eu magu i 13kg mewn tuag 20 wythnos, gan ganolbwyntio ar farchnad y Nadolig.
- Y prif waith yw cadw'r adar yn gynnes a'u bwydo ac atal heintiau yn yr uned trwy fioggiogelwch llym.
- Gellir magu adar organig trwy'r system gwellt dwfn neu'r dull adar maes, le caiff yr adar grwydro yn yr awyr agored yn y dydd, a'u cadw dan do dros nos. Mae'n llawer anoddach rheoli bioddiogelwch mewn adar maes.
- Mae canllaw i gynhyrchu dofednod organig wedi'i gyhoeddi gan Ganolfan Organig Cymru, sy'n disgrifio rhai o'r gwahaniaethau rhwng systemau organig a chonfensiynol megis gofynion bwyd (organig heb ychwanegion asid amino synthetig), adar hyn (lladd yn 81 niwrnod oed) a dim torri pig. Mae'n awgrymu hefyd fod gan systemau organig heidiau llai a bod mwy o waith gyda hwy. Serch hynny, gallant gyfrannu at rai systemau ffermio, yn enwedig rhai a chnydau âr.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES




- Mae rhai ffermwyr yng Nghymru wedi arallgyfeirio i faes dofednod gan ei fod yn cael ei ystyried yn sector mwy sefydlog na chig oen neu eidion. Nid yw'n glir os bydd yr arallgyfeirio'n parhau. Bydd yn dibynnu ar newidiadau i'r Cynllun Taliadau Sylfaenol, elw mewn sectorau eraill megis ŵyn ac eidion, pa mor agos yw safleoedd prosesu dofednod a sefyllfa pob busnes fferm unigol e.e. cynllunio dilyniant a dewisiadau eraill sydd ar gael.
- Gwelir cael caniatâd cynllunio ar gyfer siediau dofednod fel rhwystr sylweddol, felly mae nifer o ffermwyr yn magu ar gontract ar ran y prif gwmnïau. Gall y cwmnïau helpu gyda'r cais cynllunio a'r buddsoddiad cyfalaf, a'r ffermwyr yn derbyn elw ar sail perfformiad.
- Mae'r ddau brif fath o gytundeb fel a ganlyn:
 - Cwmnïau mawr wedi integreiddio'n fertigol - ceir cywion a phorthiant i'r ffermwr, sy'n derbyn £0.90c-1.10c am fod medr sgwâr yr wythnos. Mae hyn i dalu am wresogi, naddion a lleihad mewn gwerth ac ati. Mae hyn yn elw da i'r cynhyrchwyr gorau, ac yn elw cymedrol i gynhyrchwyr cymedrol, sydd â chostau uwch.
 - Sector annibynnol - mae'r ffermwr yn magu ar raglen ychydig yn hirach, gan deneuo ar 28 diwrnod a 40 diwrnod, a gwerthu'r gweddill ar ôl 55 diwrnod. Mae'r ffermwr yn derbyn pris y farchnad - 71c y cilogram o bwysau byw ar hyn o bryd. Ni fydd cynhyrchwyr cymedrol yn cael ond ychydig neu ddim elw fel hyn.
- Mae effeithlonrwydd cynhyrchu yn allweddol gan fod maint yr elw'n fach. Pris porthiant, costau cludiant a phris terfynol y radar yw'r prif ffactorau amrywiol.
- Mae cynhyrchu dofednod yn dueddol o fod wedi'i ganolbwyntio yn agos at y prif safleoedd prosesu, gydag ardaloedd allweddol ar y ffin â Lloegr a rhannau o Benfro a Môn.
- Gall y cynhyrchwyr brosesu hyd at 10,000² o'u dofednod eu hunain y flwyddyn o dan drwydded Swyddfa Iechyd yr Amgylchedd, cyn belled â bod gwerthiant wedi'i gyfyngu i'r defnyddiwr terfynol (yn cynnwys trwy'r post) neu adwerthwr neu wasanaeth bwyd lleol. Ni ellir eu gwerthu i gyfanwerthu. Ni all y cynhyrchwyr sydd â thrwydded Swyddfa Iechyd yr Amgylchedd brosesu adar ffermydd eraill.

² Nid yw'r cyfyngiad o 10,000 yn berthnasol os caiff yr adar eu pluo'n sych â llaw neu os yw'r prosesydd yn lladd llai na 40 y flwyddyn.



Prosesu: Is Sector Dofednod

- Cynhyrchwyd 1.69m tonnall o gig dofednod yn y DG yn 2015, 3% yn fwy na 2014. Roedd cynhyrchiant yn uwch ar gyfer brwyliaid (2.4%), adar berwi (10.6%), a thyrswen (3.6%), ond roedd cynhyrchu hwyaid 9% yn is.
- Mae brwyliaid yn cyfrif am 84% o gynnyrch y DG (yn ôl pwysau), gyda chynhyrchu tyrcwn yn cyfrif am 11%. Roedd y 6% arall yn hwyaid ac adar berwi.
- Mae prisiau wedi aros yn gyson neu ychydig yn is, felly roedd y ffigyrau diweddaraf ar gyfer 2014 i lawr 2.8% i £2.26 biliwn. Ni chyhoeddwyd ffigyrau cyffelyb i Gymru.
- Gellir rhannu'r farchnad ieir fel a ganlyn: 80% Safonol; 15% Lles Uwch; 4% Ieir Maes; 1% Organig. Mae ffynonellau'r diwydiant yn awgrymu mai 'Lles Uwch' sy'n tyfu gryfaf ar draul yr adrannau safonol a Maes/Organig.
- Mae 34 o brif safleoedd prosesu dofednod y DG yn aelodau o Gyngor Dofednod Prydain. Mae tri o'r rhain yng Nghymru.
- Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) wedi trwyddedu 36 safle torri dofednod yng Nghymru. O'r 36, mae:
 - 4 hefyd wedi'u cofrestru'n lladd-dai dofednod
 - 19 wedi'u cofrestru ar gyfer prosesu cynnyrch cig
 - 21 â thrwydded malu cig.
 - 26 â thrwydded torri cig coch
- Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu fod 55 menter cig a chynnyrch cig yng Nghymru, gyda 65 uned, sy'n amlinellu fod busnesau'n gweithredu ar fwy nag un safle a bod gan fentrau o'r tu allan i Gymru unedau yng Nghymru. Serch hynny, mae'r ffigyrau'n cynnwys cig coch, felly nid yw hyn yn adlewyrchu'r sector ddofednod yn unig.



- Mae proffil maint yr unedau busnes yn debyg i'r DG gyfan, er bod gan Gymru lai o fusnesau meicro a bach (77% o'i gymharu â 82%) a chyfran ychydig yn uwch felly o fusnesau canolig a mawr (23% o'i gymharu â 19%).

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



- Mae cyfanswm y busnesau cig yng Nghymru wedi amrywio rhwng 65 a 70 ers 2010. Ar draws cynhyrchu cynnyrch cig a dofednod, mae'r nifer wedi parhau'n gyson yn y 5 mlynedd ddiwethaf ar 35 uned leol.
- Roedd cyflogaeth ym mae Cig a Chynnyrch Cig yn 6,600 yn 2014; gyda 2,600 mewn safleoedd cig coch, 2,100 mewn safleoedd dofednod a 1,900 yn cynhyrchu cynnyrch cig a dofednod.
- **Cafwyd twf cryf mewn cyflogaeth ers 2010**, gyda chynnydd o 60%. Mae cyflogaeth wedi cynyddu 57% mewn safleoedd cig coch, 40% mewn safleoedd dofednod a dros 100% mewn safleoedd cynnyrch cig.
- Mae'r **twf mewn cyflogaeth lawer yn uwch na chyfartaledd y DG**, sydd wedi cynyddu 6% dros y pedair blynedd ddiwethaf. Hyd yn oed mewn safleoedd cig coch, lle'r oedd twf y DG yn 44%, roedd twf Cymru'n llawer cryfach. Ym maes dofednod, cafwyd twf o 5% yn y DG, ac ym maes cynnyrch cig, cafwyd gostyngiad o 11%.
- Mae cyflogaeth y sector prosesu cig yng Nghymru bellach yn cyfrif am 9% o swyddi'r DG, o'i gymharu â 6% yn 2010. Mae swyddi prosesu dofednod wedi cynyddu o 8% o nifer y DG yn 2010 i 11% erbyn 2014. Cynyddodd cyflogaeth cynnyrch cig o 3% i 6% yn yr un cyfnod. **Mae hyn yn amlinellu amlygrwydd cynyddol gweithgaredd Cymru yng nghyd-destun diwydiant y DG.**
- Mae disgwyliad i gael cynnyrch o Brydain bellach yn y farchnad adwerthu.
- Mae cwmnïau mawr iawn sy'n gweithredu systemau wedi'u hintegreiddio'n fertigol yn dominyddu'r diwydiant dofednod ym Mhrydain. Mae'n sector cyfaint uchel, maint elw isel, gyda chost uchel i fynd mewn i'r sector. Tra bo tarddiad Prydeinig wedi dod yn nodwedd gynyddol yn y farchnad adwerthu yn y DG, mewn nifer o farchnadoedd, mae cwmnïau'n cystadlu yn erbyn prisiau a mewforion byd-eang. O ystyried pwysau'r gystadleuaeth, mae'n debygol y bydd y sector yn parhau i gyfuno, gyda chwmnïau mawr yn prynu'r rhai llai. Mae rhai o'r rif broseswyr dofednod yn y DG yn cynnwys:

Enw	Trosiant	Gweithwyr	
Moy Park	£1.4bn	9,000	Gyda'u pencadlys yng Ngogledd Iwerddon, mae Moy Park ymhlith 15 prif gwmni bwyd y DG. Gyda 14 uned broses a chynhyrchu, gall y cwmni brosesu 240 miliwn aderyn y flwyddyn, gan gyflenwi 200,000 tunnell y flwyddyn. Mae ganddo system wedi'i hintegreiddio'n fertigol, gyda 800 ffermwr, 35 miliwn cywen a 590 fferm brwyliaid. Mae Moy Park yn cynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch ffres craidd, gyda gorchudd a pharod, gan gyflenwi adwerthwyr a darparwyr gwasanaethau bwyd yn y DG, Iwerddon ac Ewrop.
2Sisters Food Group (<i>rhan o Boparan Holdings sydd â throsiant o £3.4bn</i>) Dau safle yng Nghymru	£1.0bn	5,000	Mae gan 2 Sisters bresenoldab cryf yn y DG o ran dofednod, cig coch, bwydydd oer ac wedi rhewi, gan gyflenwi adwerthwyr a darparwyr gwasanaethau bwyd. Mae'r cwmni'n berchen ar 700 fferm yn y DG, ac yn prosesu 6 miliwn iâr yr wythnos. Mae gan 2 Sisters ddau safle yng Nghymru.
Sun Valley/ Cargill	£0.5bn	2,200	Rhan o gwmni rhyngwladol mawr, gyda buddiannau mewn nifer o ddiwydiannau. Mae pencadlys dofednod Ewrop yn Henffordd, ac mae dau brif safle yn yr ardal. Mae ganddynt strwythur cwbl integredig, gyda dros 100 fferm, a'r gallu i brosesu 1.8m aderyn yr wythnos. Yn

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



			2013, buddsoddodd y cwmni £35m yn effeithlonrwydd y safleoedd ac arloesi, gan arwyddo ymrwymiad a bwriad y cwmni ehangu yn y farchnad dofednod. Mae Cargill yn cyflenwi cynnyrch craidd ac ieir wedi'u prosesu i adwerthwyr, cwmnïau gwasanaethau bwyd a chynhyrchwyr bwyd. Mae eu lleoliad yn swydd Henffordd yn golygu eu bod yn cael dofednod o ffermydd Cymreig o ardal y ffin.
Faccenda Un safle yng Nghymru	£0.4bn	2,100	Mae Faccenda yn cynhyrchu dros 100 mhilion o ieir a thyrwyn bob blwyddyn. Ym Mawrth 2015 prynodd y cwmni Cherry Valley Foods - prif gynhyrchwr hwyaid. Mae gan Faccenda fodel busnes wedi'i integreiddio'n fertigol. Mae gan Faccenda gyfleuster prosesu yn Y Fenni, a chynigion i fuddsoddi mewn lladd ieir yno.
Bernard Matthews	£0.3bn	2,600	Bernard Matthews yw cynhyrchwr tyrcwn mwyaf y DG. Mae'n gweithredu system integredig dros 56 fferm, gan gynhyrchu 7 mhilion twrci'r flwyddyn. Mae gan Bernard Matthews 100 uned stoc (SKU) adwerthu twrci ac ieir, yn cynnwys wedi'u rhewi, ffres mewn briwsion a chig wedi'i goginio. Yn 2015, lansiodd y cwmni frand cyfan gwbl newydd gwerth £3m, sy'n cael ei gyflwyno i mewn i 2016.
CCL Holdings (Crown Chicken)	£0.086bn	400	Busnes integredig, yn cynnwys melin borthiant, cynhyrchu a phrosesu 450,000 aderyn yr wythnos.

- Mae'r 11 cwmni canlynol wedi'u cofrestru fel proseswyr dofednod yn unig yng Nghymru. Mae cwmnïau eraill wedi'u cofrestru, fel y nodir uchod, ond mae nifer sy'n prosesu cig coch yn bennaf.

Proseswyr Dofednod yn Unig wedi'u cofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd Tach 2015

Enw Masnachu	Tref
2 Sisters Poultry Limited yn masnachu fel 2 Sisters Llangefni	Llangefni
2 Sisters Poultry Limited yn masnachu fel 2 Sisters Sandycroft	Glannau Dyfrdwy
Faccenda Foods Limited	Y Fenni
Capestone Organic Poultry Limited	Hwlfordd
Abdul's Poultry Ltd	Caerdydd
Jawaid Ishaq (yn masnachu fel De Bone Halal Poultry)	Gwent
Llechwedd Trading Ltd (yn masnachu fel Llechwedd Meats)	Môn
OG Griffiths & Son	Llansantffraid
SR Davis Ltd	Y Barri
Universal Foods	Caerdydd
Usk Vale Poultry Ltd	Pontypŵl

Pryderon y Diwydiant Prosesu

- Mae'r prif bryderon sy'n wynebu cynhyrchwyr dofednod yn y DG yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Mae crynodeb o'r prif bryderon i'w gweld isod.
- Campylobacter** yw'r prif bryder, ac achos mwyaf cyffredin gwenwyn bwyd bacteriaidd yn y DG. Mewn dofednod y mae'n fwyaf cyffredin. Mae'r proseswyr yn gweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Defra ac adwerthwyr i gytuno ar fesurau i'w leihau. Mae hon yn broblem i'r Undeb

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



Ewropeaidd i gyd, fel y mae arolygon Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop yn amlinellu. Mae mesurau i ymdrin â *Campylobacter* yn cynnwys:

- Bioddiogelwch ar ffermydd; diogelwch porthiant, diogelwch dŵr.
- Lleihau'r arfer o deneuo stoc
- Profi a monitor ar ffermydd
- Arloesi ym maes prosesu, e.e. oeri'r wyneb yn gyflym, sgaldio eilaidd a golchi ag asid lactig
- Arloesi gyda phecynnau - syth i'r popty; pecyn sydd ddim yn gollwng
- Addysg i'r defnyddiwr – dim angen golchi ieir; canllawiau coginio
- **Defnyddio gwrthfotigau** - mae lleihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd yn flaenoriaeth yn dilyn pryder cynyddol am ymwrthedd gwrthfeicrobaidd byd-eang. Yn Rhagfyr 2015, fel rhan o adolygiad o ymwrthedd gwrthfeicrobaidd, cyhoeddwyd adroddiad yn edrych ar leihau'r defnydd diangen a gwastraff gwrthfeicrobau ym myd amaeth. Mae'r diwydiant dofednod wedi ymateb, gyda nifer o gwmnïau'n cynhyrchu polisi newydd. Er enghraifft, mae 2 Sisters wedi cyflwyno'r polisi canlynol ar gyfer eu ffermydd cyflenwi:
 - Sefydlu mesur cytbwys ar gyfer defnydd gwrthfotigau (monitro, cofnodi a gosod targedau lleihau defnydd)
 - Newid, Lleihau a Choethi (Replace, Reduce, Refine) yn cynnwys ymrwymiad i beidio defnyddio gwrthfotigau 3ydd neu 4ydd cenhedlaeth na Colistin.
- Gallai lleihau'r ddibyniaeth ar wrthfotigau gael goblygiadau tymor byr o ran costau ynghlwm â thwf arafach, lefelau marwolaeth uwch a chost atebion eraill (e.e. hwsmonaeth, brechu).
- **Archwiliadau Cig** - mae pa mor addas a beth yw cost archwiliadau cig a rheolaeth swyddogol yn destun pryder i'r diwydiant, ac mae'n awyddus i weithio â'r rheoleiddwyr i wella hyn.
- **Ffliw Adar** - Mae'r bygythiad yn destun pryder i holl gynhyrchwyr dofednod, gyda'r perygl o golli heidiau, ynghyd â chost diheintio a cholli marchnadoedd. Gall bioddiogelwch da leihau'r perygl o fflw adar. Mae stoc dan do mewn llai o berygl nag ieir maes, gan fod llai o berygl o gyswllt ag adar gwyllt. Pryder allweddol yw colli marchnad allforio yn sgil achosion yn o Ffliw Adar yn y DG, gyda rhai gwledydd yn fwy sensitive nag eraill.
- Gall pellter Cymru o brif ardaloedd cynhyrchu dofednod y DG fod yn fantais yng nghyd-destun fflw adar, gan alluogi prosesu i barhau pe byddau achosion yn y prif ardal gynhyrchu.
- **Gadael yr Undeb Ewropeaidd** - pryder arall i'r diwydiant prosesu, gan y gallai arwain at nifer o gystadleuwyr pris is yn targedu'r DG a chwmnïau yn y DG yn penderfynu cynyddu lefel cynhyrchu dofednod mewn lleoliadau cost is i'w hallforio'n ôl i'r DG.



Gweithgaredd Adwerthu: Is Sector Dofednod

- Mae Arolwg Bwyd Teuluoedd y DG yn dal twf graddol y dofednod sy'n cael eu bwyta ers y 1970au. Mae'r cig carcass sy'n cael ei fwyta'r pen wedi gostwng 54% o 1974 i 2013. Mae cig arall a chynnyrch cig wedi codi 22% ond mae'r dofednod³ gaiff eu bwyta wedi cynyddu 83% o 132 i 241 gram yr unigolyn yr wythnos.
- Dofednod yw'r prif brotein cig sy'n cael ei fwyta'r pen gan aelwydydd, ac mae ei bris cystadleuol a'i boblogrwydd, a thwf y boblogaeth, yn debygol o arwain at barhad yn y twf yn y dyfodol.

Data Kantar⁴

- Mae marchnad adwerthu dofednod y DG yn werth £3.763bn. Mae cyfanswm gwariant y DG i lawr 1% ond mae'r cyfaint yn gyson.
- Yng Nghymru, mae'r farchnad ddofednod yn werth £250m i lawr 2% mewn cyfaint a gwerth.
- Yn y DG, mae dofednod ffres yn cyfrif am 79% o werthiant dofednod, ar £2.99bn.
- Yng Nghymru, mae gwerthiant dofednod ffres ychydig yn is, pro rata ar 76%, sy'n werth £175m.
- Mae cyfaint gwerthiant ffres yn uwch yn y DG a Chymru, ond mae gwerthiant dofednod wedi rhewi i lawr 2% yn y DG a 5% yng Nghymru.
- Mae'r tablau canlynol yn dangos gwerth a chyfaint y gwahanol gategorïau yn y DG a Chymru, ynghyd â'r newid.

	Gwariant (£000) 2015	% Newid	Cyfaint (000 Uned) 2015	% newid	Cyfartaledd Pris (£)/(uned) 2015	% newid
Dofednod y DG						
Dofednod Ffres	£ 2,161,458	-2%	471,857	2%	4.58	-4%
Dofednod wedi'u Coginio	£ 479,702	1%	55,850	-3%	8.59	4%
Dofednod Oer wedi'u Prosesu, Dofednod a Helgig Ffres	£ 258,069	10%	36,559	13%	7.06	-2%
Dofednod Oer wedi'u Prosesu, Cig Cyfleus Oer	£ 92,533	-13%	13,152	-19%	7.04	7%
Dofednod Ffres wedi'u Prosesu	£ 400,304	3%	86,602	3%	4.62	1%
Dofednod wedi'u Rhewi	£ 328,751	-7%	87,219	-7%	3.77	0%
Dofednod wedi'u Coginio a'u Rhewi	£ 42,962	-4%	8,280	2%	5.19	-5%
Cyfanswm	£ 3,763,779	-1%	759,519	0%	£4.96	-2%

Ffynhonnell: Kantar Mai 2015

³ Yn cynnwys ieir wedi'u coginio, ieir heb eu coginio a dofednod eraill heb eu coginio.

⁴ Mae holl ddata Kantar ar gyfer y flwyddyn hyd at Fai 2015.

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



	Gwariant (£000) 2015	% Newid	Cyfaint (000 Uned) 2015	% newid	Cyfartaledd Pris (£)/(uned) 2015	% newid
Dofednod Cymru						
Dofednod Ffres	£ 126,131	-2%	29,383	1%	4.29	-3%
Dofednod wedi'u Coginio	£ 32,280	0%	3,843	-8%	8.4	8%
Dofednod Oer wedi'u Prosesu, Dofednod a Helgig Ffres	£ 12,646	3%	1,892	7%	6.68	-4%
Dofednod Oer wedi'u Prosesu, Cig Cyfleus Oer	£ 4,747	-19%	654	-28%	7.25	12%
Dofednod Ffres wedi'u Prosesu	£ 26,709	-1%	5,982	-1%	4.47	0%
Dofednod wedi'u Rhewi	£ 24,762	-9%	6,334	-11%	3.91	2%
Dofednod wedi'u Coginio a'u Rhewi	£ 3,313	11%	646	20%	5.13	-8%
Cyfanswm	£ 230,587	-2%	48,734	-2%	£4.73	-1%

Ffynhonnell: Kantar Mai 2015

- Mae'r farchnad dofednod ffres yn cael ei dominyddu gan ieir, sy'n cyfrif am 90% o'r farchnad ar wahân i'r Nadolig, gyda Thwrci'n cyfrif am 6.5% a dofednod eraill yn 3.5%. Dros y 12 wythnos sy'n cynnwys y Nadolig, mae cyfran Tyrcwn o'r farchnad yn codi i 21%⁵.
- Brand yr adwerthwr yw'r farchnad yn bennaf, gyda mwyafrif yr arloesi' cael ei yrru gan gyflenwyr Brand y Cyflenwr.
- Ym maes dofednod ffres, mae'r diwydiant wedi lansio cynnyrch "rhostio yn y bag", fel nad oes angen i'r defnyddiwr gyffwrdd y cynnyrch. Mae hyn yn lleihau'r perygl o wenwyn bwyd trwy draws-heintio, gan hefyd gynnig cyfle i ychwanegu blas. Mae llawer o gynnyrch gyda saws / blas wedi'i ychwanegu'n gwneud yn dda. Gwelir hyn fel maes i'w dyfu yn y dyfodol.
- Ym maes cig, mae cynigion arbennig yn dylanwadu llawer ar y defnyddiwr, ac mae hyn yn arbennig o wir am ddofednod. Mae'r cynnig 3 am £10 yn arferol i'r diwydiant bellach, gydag unrhywbeth sy'n cael ei gynnig fel hyn yn gwneud yn dda. Mae hyn yn addas iawn ar gyfer dofednod, gan fod cymaint o wahanol doriadau cig y gellir eu cynnig. Yn ddiweddar, mae cynigion rowndio i'r bunt (e.e. pecynnau £2 neu £5) yn cymryd lle'r 3 am £10. Gall hyn alluogi toriadau a chynigion newydd i amlygu ar ben y rhesi, gan ehangu'r cynigion sydd ar gael i'r defnyddwyr. Efallai na fydd yn dda i ddofednod yn y tymor byr, gan ei fod yn cystadlu'n uniongyrchol a chigoedd eraill.
- Mae dau gynhyrchwr enwog iawn ym maes dofednod. Yn gyntaf, mae Bernard Matthews gyda gwerthiannau o £100m neu fwy, a chryfder penodol ym maes tyrcwn. Cafodd Bernard Matthews gnoc gan raglenni Jamie Oliver yn edrych ar ginio ysgol a Turkey Twizzlers, ond mae'r cwmni'n hawlio fod ganddo strategaeth drawsnewidiol.
- Y cynhyrchwr brand arwyddocaol arall yw Gressingham, sy'n dominyddu'r sector hwyaid, ac wedi'i dyfu'n sylweddol. Mae Gressingham wedi creu brand premiwm ac wedi'i hyrwyddo'n dda, o ran

⁵ Kantar Jan 2016

BWYD A DIOD CYMRU FOOD AND DRINK WALES



prisiau a'r cyfarwyddiadau coginio hawdd ar y pecyn. Mae'r cwmni hefyd wedi ymestyn i gynnig cynnyrch gwerth ychwanegol, megis Hwyaidd Peking wedi'u coginio'n barod.

- Yn ddiweddar, mae dau gwmni arall yn dangos bwriad i ddod i'r farchnad cynnyrch brand.
 - Mae Moy Park yn lansio cynnyrch cyfleus gwerth ychwanegol megis ieir mewn briwsion ac wedi'u llenwi, ac ieir i'w Rhostio mewn Bag.
 - Mae Cranswick wedi lansio brand cig wedi coginio newydd yn NISA a Waitrose o'r enw "Welly" sy'n cynnwys un uned stoc (SKU) ieir.
- Tra bo'r sector dofednod ffres yn debygol o dyfu, bydd y sectorau gwerth ychwanegol yn debygol o weld twf mwy. Lle bo ffresni a chyfleutra wedi'u cyfuno, lle bydd saws neu farinad wedi'i ychwegu, lle bydd llai o angen i'r defnyddiwr drin y cig, a lle bo'r coginio'n haws.

Rhannau Eraill y Farchnad

- Mae'r farchnad organig yn fach iawn (mae data diweddaraf Kantar⁶ yn dangos fod gwerthiant dofednod organig ffres yn y DG yn werth £25.3million, sef 1% o farchnad adwerthu dofednod ffres y DG) ond mae potensial i hyn ar ben uchaf y farchnad fel mae Capestone wedi dangos. Mae gwerthiant adwerthu dofednod organig yn y DG yn cynyddu bron i 7% bob blwyddyn⁷, o'i gymharu â gwerthiant cyson i ddofednod yn gyffredinol. Mae potensial i gael twf ychwanegol yma yng Nghymru, ond bydd y cyfaint yn fach o'i gymharu â'r prif gwmiâu uchod.
- Mae cynnyrch wedi'i fewnforio i weld yn dominyddu'r farchnad gwasanaeth bwyd. Gall fod cyfle i drefn gaffael bwyd gyhoeddus Cymru ddylanwadu ar y farchnad yma gyda manyleb Gymreig, ond gallai proseswyr wrthwynebu ar sail cost a chyflenwad.
- Efallai bod cyfleoedd hefyd ym maes Halal lle gallai proseswyr bach a chanolig fanteisio.

⁶ Blwyddyn hyd at Ionawr 2016


⁷ Ion 2015-Ion 2016

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES



www.llyw.cymru/bwydadiodcymru

bwyd-food@cymru.gsi.gov.uk

 [@bwydadiodcymru](https://twitter.com/bwydadiodcymru)